# Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg

## Canllaw i gwblhau Cais am Ohirio ar Fewnrwyd y Gyfadran

Swansea University Prifysgol Abertawe

Dilynwch y camau isod i gwblhau ffurflen Cais am Ohirio ar Fewnrwyd y Gyfadran am unrhyw ddyddiadau cau Arholiadau Terfynol na allwch eu bodloni oherwydd Amgylchiadau Esgusodol. Os caiff y cais ei gymeradwyo, caiff y myfyriwr ohirio un neu ragor o'i asesiadau ac ymgymryd â'r asesiad(au) a ohiriwyd yn ystod cyfnod asesu yn y dyfodol.

**Rhaid cyflwyno ceisiadau am ohirio o fewn 5 niwrnod gwaith (cyn neu ar ôl) i'ch asesiad gael ei gynnal. Caiff pob cais am ohirio y tu hwnt i'r cyfnod 5 niwrnod gwaith ei wrthod ar unwaith.**

Os cymeradwyir cais am ohiriadau gan fyfyrwyr nad ydynt yn eu blwyddyn olaf, byddant yn sefyll yr arholiadau gohiriedig yn ystod cyfnod yr arholiadau atodol ym mis Awst. Os cymeradwyir cais am ohiriadau gan fyfyrwyr yn eu blwyddyn olaf, cânt yr opsiwn i gyflwyno cais i sefyll yr arholiadau gohiriedig yn ystod cyfnod yr arholiadau terfynol ym gyfnod yr arholiadau atodol ym mis Awst. Dylech nodi manylion eich cais yn eich cais am ohiriad. Sylwer bod yn rhaid sefyll pob asesiad a ohiriwyd yn ystod yr un cyfnod asesu.

Gallwch gyflwyno cais am gynifer o ohiriadau ag y mae eu hangen arnoch. Fodd bynnag, os oes gennych amgylchiadau parhaus sy'n effeithio ar eich gwaith ar draws cyfnod hwy, argymhellwn hefyd eich bod chi'n trafod cymorth arbenigol hirdymor â'r timoedd Lles/Anabledd: Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

Mewn perthynas â cheisiadau Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer asesiadau parhaus (megis gwaith cwrs ac ati), ceir adran wahanol ar Fewnrwyd y Gyfadran.

**Cam 1:** Mewngofnodwch i https://fse-intranet.swan.ac.uk/


**Cam 2:** Dewiswch y tab Amgylchiadau Esgusodol ar yr hafan.

**Extenuating Circumstances**

Yna byddwch yn gallu dewis y **Ffurflen Gohirio Arholiad Terfynol** a dilyn y camau nesaf er mwyn cyflwyno eich cais.


Final Examination Deferral Forms - To be completed if you wish to defer one or more Examinations

**Cam 3:** Byddwch yn gallu **Ychwanegu** ffurflen newydd. Sylwer os ydych eisoes wedi cyflwyno ceisiadau am ohirio neu os cyflwynwch sawl cais, byddwch yn gweld rhestr o'r holl ffurflenni eraill rydych chi wedi'u creu ynghyd â'u statws presennol.





Byddwch bellach yn gallu cwblhau'r ffurflen newydd rydych chi wedi'i chreu drwy ddilyn y camau isod.

**Cam 4:** Dylai **Adran A** eisoes gynnwys eich enw, eich rhaglen a'ch manylion.




Yn **Adran B**, dewiswch yr opsiwn **Golygu'r Adran hon**.




Yn yr adran hon, rhowch yr wybodaeth ganlynol:

- Ar gyfer **Manylion yr Amgylchiadau**, disgrifiwch eich amgylchiadau a sut maent wedi effeithio ar eich gallu i baratoi, cwblhau neu gymryd rhan yn eich arholiadau.
- Ar gyfer **Diwrnod cyntaf y cyfnod yr effeithiwyd arno** , rhowch y dyddiad cyntaf mae'r amgylchiadau rydych wedi'u hamlinellu yn y disgrifiad wedi effeithio arnoch.
- Ar gyfer **Dyddiad Gorffen Disgwyliedig y cyfnod yr effeithiwyd arno**, nodwch y dyddiad olaf neu'r dyddiad gorffen disgwyliedig, y mae’r amgylchiadau rydych wedi'u hamlinellu yn y disgrifiad wedi effeithio ar eich gwaith.

**Cam 5:** Lanlwythwch eich dogfennaeth ategol yn **Adran C.** Rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth ategol fel dogfen Word, JPEG neu PDF.  Nid yw systemau'r Gyfadran yn gallu darllen dogfennau ategol yn fformat HEIC.

SECTION C (Supporting Documentation)

If submitting a doctor's note or other outside documentation, please attach the documents to this form by selecting

**Upload Attachment** below or email the documents to StudentSupport-ScienceEngineering@swansea.ac.uk as soon as possible.

Lanlwythwch eich atodiad(au) neu anfonwch y dogfennau mewn e-bost i StudentSupport-ScienceEngineering@abertawe.ac.uk cyn gynted ag y bo modd.

Hefyd dylech roi disgrifiad o'ch dogfennaeth ategol yn yr adran Math o Ddogfennaeth Ategol a darparu gwybodaeth y credwch ei bod yn berthnasol i'ch dogfennaeth ategol.

Type of Supporting Documentation

**Rhaid i dystiolaeth ategol:**

- Gael ei darparu gan drydydd parti a'i chyflwyno gan y myfyriwr.
- Esbonio'r amgylchiadau'n glir.
- Cadarnhau'r cyfnod amser yr oedd yr amgylchiadau'n effeithio arno.
- Cael ei dyddio o fewn mis i ddyddiad yr asesiad dan sylw.
- Cael ei chyflwyno cyn gynted ag y bo modd.
- Yn achos dogfennaeth a ysgrifennwyd mewn iaith arall, rhaid darparu cyfieithiad swyddogol.

Os nad ydych wedi lanlwytho dogfennaeth ategol erbyn y dyddiad cau, caiff eich cais ei wrthod. Argymhellwn eich bod yn lanlwytho dogfennau ategol ar adeg cyflwyno'ch cais os oes modd.

**Cam 6:** Cwblhewch Adran D. **Llofnodwch Ddatganiad y Myfyriwr.**


SECTION D (STUDENT DECLARATION)

**By submitting this form via your University email address, you are confirming and consenting to the following:**

- I declare that, to the best of my knowledge, all the information I have supplied/attached with this form is true, accurate and complete and acknowledge that the submission of fraudulent information could lead to the University taking disciplinary action.
- I give my consent for the information to be circulated to the relevant members of staff for the purpose of processing and investigating my request.
- I understand that if I am submitting a deferral form for a final assessment/s, in the event that the deferral is approved, any named assessment/s already undertaken will not be marked and I will not be aware a mark for the assessment/s.

**Cam 7:** Cwblhewch **Adran E.** Dewiswch **Ychwanegu** a gofynnir i chi nodi'r canlynol:

- Côd y Modiwl
- Credydau
- Dyddiad yr Asesiad
- Math o Asesiad
- Cadarnhewch a ydych chi wedi rhoi cynnig ar yr asesiad ai peidio
- Nodwch a gaiff y gohiriad ei gapio ai peidio


SECTION E (Details of Modules Affected)

**Please list all modules affected:**

Enter details for the module below, select **Add** to add another module.

Cewch nodi manylion yr asesiadau yr effeithiwyd arnynt ar gyfer un modiwl neu fwy, ond cofiwch fod yn rhaid i bob cais Amgylchiadau Esgusodol gael ei gyflwyno o fewn pum niwrnod gwaith i ddyddiad cau pob aseiniad. **Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir y tu hwnt i'r ffenestr 5 niwrnod gwaith eu cymeradwyo.**

**Cam 8:** Cyflwynwch eich ffurflen er mwyn i'ch cais gael ei ystyried. Sylwer, trwy gyflwyno'ch ffurflen, rydych chi'n rhoi caniatâd i'ch gwybodaeth gael ei rhannu ag aelodau perthnasol o staff Prifysgol Abertawe at ddibenion ystyried eich cais am ohirio a darparu cymorth priodol.

Caiff y data personol a rannwch ei gofnodi a'i gadw ar y Fewnrwyd am hyd eich astudiaethau. Sylwer: Os nad ydych yn clicio 'Cyflwyno (Submit)', bydd eich ffurflen yn weladwy i'r Coleg at ddibenion gwybodaeth yn unig, ac ni chaiff cais am estyniad ei ystyried.

## Beth fydd yn digwydd wedi hynny:

Ar ôl cyflwyno'ch ffurflen, byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib er mwyn eich cynghori a yw'ch cais wedi'i gymeradwyo, neu i ofyn am ragor o dystiolaeth ategol os bydd angen.

Dyma benderfyniadau cychwynnol posibl:

- **Wedi'i dderbyn:** Mae'ch cais wedi'i gymeradwyo a chewch eich cynghori ynghylch pryd cynhelir eich asesiad(au) gohiriedig (er enghraifft, yn ystod cyfnod Arholiadau Atodol mis Awst).

- **Angen Gweithredu Pellach:** Golyga hyn fod yr amgylchiadau rydych chi wedi'u disgrifio yn rhai sy'n gymwys ar gyfer gohirio, ond y bydd angen i chi lanlwytho dogfennaeth ategol er mwyn i'ch cais am ohirio gael ei gymeradwyo ar y cam adolygu terfynol. Sylwer os nad ydych yn darparu dogfennaeth ategol erbyn y dyddiad cau, caiff y penderfyniad ei newid i 'heb ei gymeradwyo' a chaiff y marc asesu ei newid i sero.

- **Gwrthod:** Os nad yw'ch amgylchiadau'n gymwys am ohirio, neu os ydych wedi cyflwyno cais y tu hwnt i 5 niwrnod gwaith i'r dyddiad asesu, ni chaiff eich cais ei gymeradwyo.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn o gymorth i chi. Os oes gennych gwestiynau neu ymholiadau, e-bostiwch y Tîm Profiad a Gwybodaeth Myfyrwyr drwy StudentSupport-ScienceEngineering@abertawe.ac.uk

Dolenni perthynol:

**Arweiniad y Gyfadran ynghylch Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer Arholiadau Terfynol:**
https://myuni.swansea.ac.uk/fse/coe-student-info/extcircs/exams/

**Polisi Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol:** https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/aqs-policies/policy-on-extenuating-circumstances/

**Arweiniad ynghylch Amgylchiadau Esgusodol a Goblygiadau Ariannol:** https://myuni.swansea.ac.uk/finance/money-campuslife/extenuating-circumstances/#bbq=on

**Adnoddau Cymorth a Lles:** https://myuni.swansea.ac.uk/cy/cymorth-a-lles/